

AR WERTH

Stori'r Fadfall Ddŵr Gribog

Gan Sarah Hancock

Ffenestri sy'n disgleirio, gerddi llawn blodau a drysau sy'n arwain at ystafelloedd mawr.

Dim dŵr yn gollwng o'r to, brics a morter cryf, rhywle i barcio a dŵr glân iawn.

Cymdogion cyfeillgar sydd bob tro yn codi llaw ac yn gwenu, y tŷ perffaith ar gyfer y ffordd o fyw berffaith.

Dyna rai o'r pethau rydyn ni fodau dynol yn chwilio amdanyn nhw, felly nid yr hawsaf i blesio ydyn ni wrth brynu tŷ.

Ond beth am y rhai hynny sy'n llawer llai na ni, sy'n ddistaw, a sy ddim am dynnu sylw?

Y rhai hynny heb restr hyd braich, wel, mae un person yn gallu helpu i ysgafnhau'r baich.

Un drefnus ydy hi, un effeithlon, a nôl o'i hegwyl ginio, dyma gyflwyno Miss Anna Grensiog.

Wrth weu drwy'r glaswellt a chadw ei phen i lawr i osgoi canghennau'r helyg, mae Anna yn baglu tuag at ymyl y dŵr, tra'n cymryd llymaid o'i latte llaeth ceirch, blas caramel, dim siwgr poeth.

"Wel, gallai hyn weithio," mae hi'n datgan yn gyffrous, cyn dechrau tacluso'r glaswellt heb oedi dim.

Anna yw'r Asiant Gwerthu Tai rhif un yn y Fro, ond nid tai i fodau dynol yw ei maes. Tai i bob math o greaduriaid yw ei harbenigedd hi. Tyrchfa glud i lwynogod lleol, perthi perffaith i lygod lu, a hyd yn oed ogofâu i'r ystlumod mwyaf ystyfnig. Mae Anna yn helpu creaduriaid bach a mawr i ddod o hyd i'r lle perffaith i ffynnu a bwrw gwreiddiau.

"Nawr, mae fy nghleient heddiw yn eithaf dirgel," medd Anna wrth fwrw golwg dros ei nodiadau ar ei chlipfwrdd. "Alla i ddim dweud fy mod i erioed wedi cael y pleser o dywys y math arbennig hwn o greadur. Dwi wir yn gobeithio eu bod nhw'n hoffi'r ardal."

Mae i'w gweld yn braf yn yr ardal hon. Mae pwll pefriog gyda dŵr gloyw yn eistedd yn isel ynghanol glaswellt tal. Ac er bod y pwll yn y cysgod, mae digon o olau yn dod drwy'r coed - cartref perffaith i rywun nad yw'n or hoff o'r gwres.

Un effeithlon yw Anna cofiwch, a dyma hi'n edrych ar ei horiawr i weld yr amser. Fel arfer, mae'n paratoi'n drylwyr drwy ddysgu llawer am y math o greadur y bydd yn ei dywys a'r math o dŷ y mae'n dueddol o'i hoffi. Ond am ryw reswm, mae'r cleient hwn eisiau aros yn ddirgel.

"Falle taw broga yw e" medd Anna wrth ei hun, "neu lyffant? Ww, efallai ei fod e'n enwog!
Dyna pam mae eisiau cadw ei enw'n gyfrinach.

Ynghanol ei meddyliau, a hithau'n ceisio dyfalu pwy allai fod, dyw Anna ddim yn sylwi ar y creadur lliw tywyll sy'n ymlwybro tuag ati. Am eiliad, mae ei groen dafadennog yn dal y golau, ac mae Anna yn troi'n gyflym.

"Helo 'na?" mae Anna yn galw, cyn edrych o gwmpas wrth ymyl y dŵr.

Yn sydyn, mae tap ar ei hysgwydd yn tynnu ei sylw, a hithau'n troi i wynebu creadur gyda bola oren.

"Mae gen i apwyntiad i weld tŷ," mae'r creadur yn esbonio.

"O, wel wrth gwrs! Rhaid mai gyda chi y mae fy apwyntiad am dri o'r gloch. Pleser cwrdd â chi," mae'n dweud, gan estyn ei llaw. "Anna Grensiog ydw i. Asiant gwerthu tai rhif un y Fro i greaduriaid a chreaduresau. Maddeuwch i mi, ond am ryw reswm, does dim llawer o fanylion gyda fi amdanoch chi yn fy nodiadau. Wrth eich croen dafadennog, a'r ffaith eich bod yn edrych bach fel dinosor, ai ymlusgiad ydych chi?"

"Amffibiad," yw ateb y creadur.

"O, mae'n flin gyda fi - Mr, ymmmm?"

"Madfall-y-Dŵr."

"Mr Madfall-y-Dŵr. Braf iawn cwrdd â chi. Rhaid ifi ddweud, mae'n rhyddhad. Roeddwn i'n poeni am eiliad na fyddwn yn gallu dod o hyd i'r cartref perffaith i chi, ond dwi wedi helpu llawer o gwsmeriaid a oedd yn fadfallod y dŵr, ac roedd pob un yn hapus iawn gyda'i dŷ newydd. Gwerthais i bwl gardd hyfryd i fadfall ddŵr gyffredin y diwrnod o'r blaen. Er, doedd ei fola ddim yr un lliw oren llachar fel eich un chi, a maddeuwch ifi am ddweud, ond doedd e ddim mor fawr â chi chwaith.

Mae Mr Madfall-y-Dŵr yn edrych o gwmpas yn ofalus ac yn sibrd mewn llais tawel.

"Mae hynny am fy mod i'n fadfall ddŵr gribog, Miss Grensiog."

"Iesu mawredd! Iesu mawredd! Wel dyna anrhydedd yw hyn! Diolch Mr Madfall-Ddŵr-Gribog am ymddiried ynof i i ddod o hyd i gartref i chi. Fyddaf i ddim yn eich siomi chi!" mae Anna yn dweud yn gyffro i gyd.

"Os gwelwch yn dda, galwch Mr Madfall-y-Dŵr arnaf fi."

"Wrth gwrs, wrth gwrs. Wel well i ni ddechrau'r daith dywys,' medd Anna yn ei llais proffesiynol.
"Bydden ni wir wrth ein bodd i groesawu amffibiaid prin a dan fygythiad fel chi i symud i'r ardal
ac mae'r lle perffaith gyda fi i chi. Dilynwch fi os gwelwch yn dda."

Mae Anna yn tywys Mr Madfall-y-Dŵr yn gyflym i ochr arall y pwll, gan baratoi ei hun i amlinellu'r cynnig.

"Yn gyntaf, fel y gwelwch chi, mae dyfroedd y pwll hwn gyda'r dyfroedd gorau yr ochr hon o'r Fro. 'Sdim lle gwell i chi ddangos eich sgiliau nofio ac mae'n ddigon hawdd i neidio'n syth i mewn, diolch i'r ymylon serth," mae Anna yn datgan.

Mae Mr Madfall-y-Dŵr yn edrych yn anfodlon. "Ah! Ddim imi felly. Rydych chi'n gweld, mae gen i broblem fach gyda hylendid a thaclusrwydd. Dwi'n hoffi pethau ychydig yn fwy - budr. Mwd, llystyfiant, y math yna o beth. Hefyd mae'r ymylon yn llawer rhy serth, mae'n well gen i lethr mwy graddol i'r dŵr. Diolch am eich amser Miss Grensiog," meddai Mr Madfall-y-Dŵr cyn troi i fynd.

Mae Anna mewn panig llwyr yn stopio Mr Madfall-y-Dŵr yn ei unfan. "O wrth gwrs Mr Madfall-y-Dŵr, dwi'n deall, ond a soniais i nad oes dim llygredd yn y pwll hwn o gwbl. Dim plaladdwyr, gollyngiadau carthffosiaeth, na chaniau gwag o Coca Cola diet."

"Wel, does dim llawer o byllau heb ddim llygredd y dyddiau hyn," mae Mr Madfall-y-Dŵr yn cyfaddef wrth iddo feddwl am y wybodaeth newydd. "A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y gallai'r cartref hwn ei gynnig i mi?"

"Wrth gwrs. Os dewch chi draw fan hyn, chi'n gallu teimlo'r dŵr oer braf. Dwi'n dychmygu, fel fi, mae'n gwell gyda chi beidio cael gormod o haul, a'r pwll yma yw'r lle perffaith i gadw mor oer a mynnoch chi allan o'r haul," medd Anna mewn ymgais i newid trywydd y sgwrs.

"Ah, eto Miss Grensiog, gallai hynny fod yn broblem i mi," mae Mr Madfall-y-Dŵr yn ateb.

"Mewn gwirionedd, mae'n well gen i ddyfroedd lle mae mwy o haul. Allech chi hyd yn oed dweud fy mod i'n addoli'r haul.

Mae Anna yn teimlo ei hun yn mynd i banig eto.

"O wrth gwrs, fi hefyd! Dwi'n cytuno cant y cant."

"Wir?" Mae Mr Madfall-y-Dŵr yn ateb, wedi drysu braidd. "Roeddwn i'n meddwl eich bod chi newydd ddweud eiliad yn ôl nad ydych chi'n hoff o'r haul?"

"Wedes i hynny?" Yn araf, gwelwn Anna yn dechrau mynd i banig go iawn. Yn bryderus bod Mr Madfall-y-Dŵr yn gweld drwy ei thriciau gwerthu, mae'n newid trywydd. "O, wel dydw i heb sôn am y cymdogion yma eto ydw i?"

Bob amser yn broffesiynol, mae'n tynnu sylw Mr Madfall-y-Dŵr yn esmwyth mewn ymgais taer i adennill hyder y cleient.

"Ie, y cymdogion. O, am bobl gyfeillgar. Mae Mr a Mrs Neidlam yn byw ar yr ochr draw gyda'u tri chan a thri deg dau o wyau," mae Anna yn esbonio, yn pwyntio tuag at ochr draw'r pwll. "Maen nhw'n aml yn mynd ar wyliau i'r llystyfiant gerllaw ond pan fyddan nhw yma ym misoedd y gaeaf, maen nhw'n gwmni arbennig."

"Diddorol," mae Mr Madfall-y-Dŵr yn ateb.

"Hefyd yn byw yma mae Miss Mursen, y gwas y neidr. "Merch hardd iawn! Mae ei champau acrobateg yn hyfryd iawn i'w gwyllo. O, a dydw i ddim hyd yn oed wedi sôn eto am y teulu Tagell!"

"Y teulu Tagell?" mae Mr Madfall-y-Dŵr yn holi.

"Dyna chi! Teulu hyfryd o bysgod sy'n byw-." Cyn iddi allu dweud gair arall, mae Mr Madfall-y-Dŵr yn torri ar ei thraws.

"Dwi'n siŵr bod y teulu Tagell yn hyfryd a dim byd personol, ond pysgod ydyn nhw. Pe bawn i'n dechrau teulu yma yn y dyfroedd hyn un diwrnod, gallen nhw fod yn fygythiad enfawr ac yn beryglus iawn, Miss Grensiog," medd Mr Madfall-y-Dŵr.

"Wel, dwi'n siŵr pe baech chi'n siarad â nhw ac yn esbonio'r sefyllfa, bydden nhw'n deall yn iawn. Gallwn ni lunio cynlluniau ffiniau pe hoffech chi?" mae Anna yn ateb yn frysio.

"Dydw i ddim yn siŵr y byddai'r teulu Tagell yn hoffi hynny, Miss Grensiog."

"Wel, gallaf yn sicr ddweud wrthyn nhw amdano a rhoi gwybod eu hateb i chi."

Mae gwynt ysgafn yn chwythu trwy gopaon y coed, ac yn siglo canghennau'r helyg uwch eu pennau. Mae Mr Madfall-y-Dŵr yn edrych o gwmpas, fel pe bai ar bigau'r drain ar ôl clywed rhywbeth.

"A yw popeth yn iawn Mr Madfall-y-Dŵr?"

"Dwi'n ymddiheuro. Dwi ar bigau'r drain heddiw. Rydych chi'n gweld, mae dod o hyd i gartref newydd wedi bod yn broses eithaf heriol hyd yn hyn a dwi'n teimlo pwysau enfawr ar fy ysgwyddau dafadennog." atebodd Mr Madfall-y-Dŵr.

"Pam felly, Mr Madfall-y-Dŵr?" mae Anna yn gofyn, yn chwilfrydig i ddysgu mwy am ei chleient newydd.

"Wel, rydyn ni dan fygythiad wrth gwrs, Miss Grensiog. Dyna pam na allaf gymryd unrhyw risgiau. Mae angen lle diogel a chartrefol arnaf i fyw, rydych chi'n gweld. Ga i?"

Mae Mr Madfall-y-Dŵr yn pwyntio tuag at ymyl y dŵr. Mae Anna yn ei wahodd i ymchwilio ymhellach, gan wyllo wrth iddo symud ei gorff a'i fola oren drwy'r glaswellt. Fel petai'n chwilio am rywbeth, mae'n mynd i lawr yn isel, cyn codi eto ac edrych o gwmpas. Wrth i Anna wyllo,

mae ei meddwl yn crwydro, ac mae'n meddwl tybed beth fydd hi'n ei fwyta heno. Stecen gyda sglodion pupur neu efallai ei bolognese spaghetti enwog? Mae Mr Madfall-y-Dŵr yn dychwelyd yn gyflym i ochr Anna yn edrych yn anfoddog, a hynny'n ei dihuno o'i myfyrdodau.

"Dwi'n gwerthfawrogi eich help yma Miss Grensiog, ond dwi'n ofni rhwng y dyfroedd glân, ymylon serth y pwll, y cysgod, a nawr y rhestr o gymdogion, ni allaf ddod yma i fyw," mae Mr Madfall-y-Dŵr yn datgan, cyn troi'n sydyn a chropian i ffwrdd.

"Ond Mr Madfall-y-Dŵr, beth am yr ardaloedd agored o amgylch y pwll!" medd Anna'n uchel.

"Llawer rhy agored i mi! Dwi'n hoffi ychydig o fannau caregog gydag ychydig o holltau lle gallaf guddio," mae Mr Madfall-y-Dŵr yn ateb o bell.

Mae Anna yn meddwl yn gyflym ar ei thraed. Dyw colli'r cleient pwysig hwn ddim yn rhywbeth y mae hi am ei wneud.

"Wel, efallai bod rhywbeth arall yn yr ardal y gallaf ei ddangos i chi?" mae hi'n gweiddi, yn difaru'r geiriau sydd newydd ddod allan o'i cheg yn syth. Yr asiant gwerthu tai gorau yn y Fro yw hi wedi'r cyfan, ac mae hi'n gwybod mai peth prin yw cartrefi fel hyn.

"Byddwn i'n hapus i chi ddangos cartref posibl arall imi, Miss Grensiog," mae Mr Madfall-y-Dŵr yn ateb. "Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi fynnu bod ganddo'r holl bethau rydyn ni wedi'u trafod heddiw, fel arall bydd yn rhaid i mi fynd ymhellach o lawer. Rydw i wedi clywed bod asiant gwerthu tai gwych arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr."

Mae Anna wedi'i sarhau ychydig bach, ond mae'n brwsio sylwadau Mr Madfall-y-Dŵr o'r neilltu. "Wrth gwrs Mr Madfall-y-Dŵr. Beth am apwyntiad arall, yfory am yr un amser? Gallaf anfon y manylion atoch chi."

"Swnio'n dda i mi!" mae Mr Madfall-y-Dŵr yn ateb, cyn diflannu'n gyflym o'r golwg.

"Grêt! Hoffech chi gael nhw drwy e-bost neu-? Ac mae e wedi mynd."

Mae Anna yn sefyll ar ei phen ei hun, yn syllu i'r pellter o ymyl y dŵr. Mae hi'n cymryd llymaid o'i latte laeth ceirch, sy'n oer erbyn hyn. Mae hi'n edrych yn anfodlon ac ychydig yn ddigalon.

"Wel Anna, mae'n edrych fel bod hwn yn mynd i fod yn waith caled," mae'n meddwl wrthi hi ei hun.

Mae hi'n estyn ei chlipfwrdd allan ac yn nodi'r rhestr o ofynion sydd gan Mr Madfall-y-Dŵr.

"Dŵr mwy budr, llethrau mwy graddol, dim llygredd, mwy o haul, a dim pysgod," mae'n cofio, yn ysgrifennu rhestr wrth fynd. "Ch'mod beth, fydd hyn ddim mor anodd!"

Mae Anna yn pwylo ac yn meddwl, tra'n syllu ar y rhestr. Mae dod o hyd i gartrefi i greaduriaid a chreaduresau wedi dod yn fwyfwy heriol wrth i'r blynyddoedd fynd heibio ac mae Anna yn gwybod hyn. Mae hi'n cymryd anadl ddofn, gan atgoffa ei hun mai hi yw'r gorau yn y busnes, rhif un ac yn sicr yn ddigon medrus i ddenu cwsmer mor brin i'r ardal.

"Iawn Miss Grensiog, galli di wneud hyn!" Mae hi'n ebychu, ac yn siglo ei hun i ysgogi bach o gymhellant.

Mae hi'n gwrthio cangen uwch ei phen ychydig, ac i'r ochr, ac mae mwy o heulwen yn llifo i mewn. Mae Anna'n codi llaw ar y cymdogion gerllaw, cyn tacluso'r glaswellt unwaith eto.

Mae hi'n troi ac yn dechrau mynd yn ôl i'w swyddfa, yn benderfynol o ddod o hyd i'r cartref perffaith i'w chwsmer pwysig. Wrth iddi gamu dros y cerrig, mae'n dweud wrth ei hun yn dawel, "bodau dynol eh? Pam na wneith Persimmon Homes adeiladu pyllau dŵr am unwaith?"

